Yr Adran Diwylliant Cyfryngau a Chwaraeon
www.culture.gov.uk

Awst 2005

CAIS AM DRWYDDED MANGRE

Pa bryd i ddefnyddio'r ffurflen

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â chais am drwyddedau mangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf"). Mae ffurflen debyg ar gael ar gyfer clybiau sy'n gwneud cais am dystysgrif mangre clwb.

Â siarad yn fras, fe all trwydded mangre awdurdodi'r gweithgareddau canlynol:

- gwerthu neu gyflenwi alcohol
- darparu adloniant wedi'i reoleiddio
- darparu bwyd a diod poeth yn hwyr y nos

Rhoddir gwybodaeth bellach ynghylch pa weithgareddau sy'n drwyddedadwy yn nes ymlaen yn y canllawiau hyn.

Mae'n rhaid gwneud cais am drwydded mangre i'r awdurdod trwyddedu sy'n gyfrifol am yr ardal lle lleolwyd eich mangre. Fel rheol eich awdurdod lleol fydd yr awdurdod trwyddedu. Mae ffurflenni cais ar gael ar wefan DCMS, neu oddi wrth eich awdurdod trwyddedu. Mae'n bosib bod copïau hefyd ar gael ar wefan eich awdurdod trwyddedu.

ANGEN MWY O HELP?

Bwriad y Canllawiau hyn yw helpu ymgeiswyr i gwblhau'r ffurflen gais. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am Ddeddf Trwyddedu 2003 a ffynonellau eraill o help ar wefan DCMS www.culture.gov.uk . Dylai eich awdurdod trwyddedu lleol allu eich helpu chi gydag unrhyw ymholiadau neu roi cyngor i chi ar sut i gwblhau'r cais. Hefyd efallai y byddwch yn dymuno ystyried ffynonellau eraill o gyngor megis corff masnachu perthnasol neu trwy gael cymorth proffesiynol, er enghraifft cyngor cyfreithiol.

CWBLHAU'R FFURFLEN

Yn y datganiad agoriadol, dylech roi enw'r ymgeisydd neu ymgeiswyr sy'n gwneud y cais am dystysgrif mangre clwb - e.e. 'John Smith' neu 'Cwmni Tafarn Braf'.

RHAN 1: Manylion y fangre

Mae'r adran hon yn gofyn am gyfeiriad a rhai manylion eraill am y fangre. Os nad oes gan y fangre gyfeiriad post, er enghraifft, os yw'r cais yn ymwneud â digwyddiad ar dir agored, dylech ddisgrifio lleoliad y fangre neu roi cyfeiriad map Arolwg Ordnans.

Mae'r adran hon hefyd yn gofyn am y gwerth ardrethi annomestig (NDRV) y fangre. Nid yw hyn yr un peth â'r cyfraddau busnes yr ydych yn eu talu, ond yn hytrach yn werth a bennir gan y Swyddfa Brisio sy'n helpu i bennu ar y graddfeydd busnes. Bydd y NDRV, yn hytrach na'r bil cyfradd busnes, yn penderfynu ar y lefel ffi i'w thalu gyda'r cais am drwydded a'r ffi flynyddol. Gellir gwirio NDRV unrhyw fangre ar wefan yr Asiantaeth Swyddfa Brisio (VOA) www.voa.gov.uk . Mae NDRV yn cael ei ailbrisio bob 5 mlynedd. Daeth prisiad newydd i rym ar 1 Ebrill 2005. Mae mangreoedd clwb nad ydynt â NDRV yn cael eu trin fel eu bod yn band A at ddibenion ffi trwyddedu.

Gweler canllawiau ar FEES am ragor o wybodaeth:
www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/fee_levels

RHAN 2 – Manylion yr Ymgeiswyr

Mae'r adran hon yn gofyn i chi nodi fel beth yr ydych yn gwneud y cais, er enghraifft, fel unigolyn, cwmni cyfyngedig, clwb a gydnabyddir, elusen ayb. Fel un o'r rhain yn unig y gallwch ymgeisio, felly dim ond un blwch y dylech ei dicio.

Os ydych yn gwneud cais fel yr unigolyn a ddisgrifir yn (a) neu (b) mae'n rhaid i chi hefyd dicio un o'r tri blwch ar ddiwedd y cwestiwn yma. I'r rhan fwyaf o ymgeiswyr, bydd y blwch cyntaf yn berthnasol (h.y. bydd yr ymgeisydd yn parhau neu'n dymuno parhau â'i fusnes). Mae'n bosib y byddai cais sy'n ymwneud â 'swyddogaeth statudol' yn gais a wneir ar ran asiantaeth o'r llywodraeth (e.e. yr Asiantaeth Pasbort) ac fe allai cais sy'n ymwneud â 'swyddogaeth a gyflawnir yn rhinwedd uchelfraint ei mawrhydi' ddod gan Y llywodraeth (ee gan Ysgrifennydd Gwladol).

Yna dylech roi manylion pellach yn naill ai adran **(A) YMGEISWYR UNIGOL** neu yn adran **(B) YMGEISWYR ERAILL**, ond nid yn y ddau.

Rhan 3 – Atodlen Weithredu

Dylech nodi'r dyddiad o ba bryd yr hoffech weld y drwydded yn dechrau. Ni all y drwydded ddod yn weithredol tan yr ail ddiwrnod a enwyd, hynny yw y dyddiad cynharaf y gallwch ofyn amdano. Bydd trwydded mangre yn parhau'n ddi-dor, oni noder yn wahanol yn y blwch a ddarparwyd.

Disgrifiad cyffredinol o'r fangre

Yna bydd gofyn i chi ddisgrifio'r fangre. Er enghraifft, y math o fangre, ei lleoliad, a'i gosodiad cyffredinol ac unrhyw wybodaeth arall a fyddai'n berthnasol i'r amcanion trwyddedu. Hefyd dylech ddisgrifio unrhyw ardaloedd yr ydych yn bwriadu eu darparu i bobl i yfed yr alcohol yr ydych yn ei werthu neu ei gyflenwi, megis ardaloedd tu allan, e.e. gerddi cwrw.

5,000 neu fwy o bobl yn mynychu

Mae'n angenrheidiol gofyn faint o bobl fydd yn mynychu'r fangre ar unrhyw un adeg er mwyn penderfynu a fydd angen codi ffi ychwanegol am ddigwyddiadau mawr. Nid oes rhaid cwblhau'r blwch hwn os ydych yn credu y bydd llai na 5000 o bobl yn mynychu mangre'r clwb ar unrhyw un adeg. Mae'r ffigwr hwn yn ymwneud â'r nifer uchaf o bobl yn y mangre clwb, gan gynnwys gweithwyr, ar unrhyw un adeg - nid y cyfanswm dros gyfnod o amser. Mae'n bwysig nodi bod y ffigyrau mynychu'n ymwneud â'r 'mangre trwyddedig' (h.y. yr ardal drwyddedig a nodir yn y cynllun) ac nid ardaloedd sydd tu allan i'r 'mangre trwyddedig'.
Os ydych yn penderfynu na fydd y nifer yn rhagori ar 5000 byddwch yn gyfrifol am sicrhau nad yw'r niferoedd ar unrhyw un adeg yn mynd yn uwch na'r ffigwr hwn. Os yw'r niferoedd yn rhagori ar hyn, fe allech fod yn ymgymryd â gweithgarwch didrwydded, sy'n drosedd.

A oes rhaid i mi roi tocyn i bawb i brofi'r niferoedd sydd ar y safle?
Eich penderfyniad chi wrth i chi lunio'r cais yw a ydych angen gwneud trefniadau ar gyfer cyfrif y niferoedd sy'n mynd a dod. Serch hynny, mae'n drosedd i wneud datganiad ffug yn y cais a allai arwain at ddirwy o £5,000.
Rwy'n rhedeg sioe wledig sydd â phabell gwrw. A oes rhaid i mi nodi'r cyfanswm o bobl sydd yn y sioe gyfan yn yr adran hon?
Mae'n dibynnu a ydych chi'n trwyddedu'r fangre cyfan ai peidio. Gan fod y rhan fwyaf o'r digwyddiadau mewn sioe o'r fath yn rhai nad ydynt angen trwydded, gallai fod yn bosibl i drwyddedu'r babell gwrw yn unig. Yn yr achos hwn, maint y babell gwrw sy'n cyfrif ac mae'n annhebygol y bydd hyn yn arwain at ffi ychwanegol i ddigwyddiadau mawr.

A ddylem ni gynnwys ein gardd gwrw ar ein tystysgrif mangre clwb?
Eich penderfyniad chi yw hynny. Wrth wneud hynny, bydd angen i chi ystyried a ydych eisiau defnyddio'r ardd rhyw dro yn y dyfodol i werthu alcohol - efallai bar tu allan mewn barbiciw neu o bosibl trwy wasanaeth diodydd a weinir. Hefyd, os nad ydych yn cynnwys yr ardd fel rhan o'r fangre drwyddedig, yna bydd diodydd a brynir i'w hyfed yno'n cyfrif fel cyflenwadau allanol a bydd unrhyw amodau sy'n ymwneud â gwerthu cyflenwadau allanol yn berthnasol. Os defnyddir yr ardd gwrw ar gyfer cyflenwadau allanol, yna mae'n rhaid i chi gynnwys disgrifiad o leoliad y lle a pha mor agos ydyw at y fangre.

Gweithgareddau trwyddedadwy

Dylech nodi pa weithgareddau trwyddedadwy yr ydych am eu cyflawni trwy roi tic yn y blychau priodol. Wrth ystyried beth i'w ysgrifennu yn yr adran yma, dylech feddwl am yr holl weithgareddau y gallech ddymuno eu cynnal ar y fangre yn y dyfodol ac ystyried a oes unrhyw weithgareddau trwyddedadwy o dan y Ddeddf. Ar ôl gwneud hyn bydd angen i chi lenwi'r blychau perthnasol o A i M sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hynny. Dylech gwblhau'r blychau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau a diciwyd gennych yn unig.

Dylech nodi'r amseroedd gan ddefnyddio'r cloc 24 awr a rhoi manylion am y dyddiau o'r wythnos yr ydych yn bwriadu i'r fangre gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy yn unig. Mae'r gofod sy'n dweud 'nodwch unrhyw amrywiadau tymhorol', yn rhoi'r cyfle i chi gynnwys unrhyw oriau hirach neu ddiwrnodau ychwanegol yn ystod yr haf er enghraifft. Mae'r gofod sy'n dweud 'amseroedd nad ydynt yn safonol', yn rhoi'r cyfle i chi gofnodi'r achlysuron pan fydd yr amseroedd yn newid. Er enghraifft, efallai y byddwch yn dymuno i'r gweithgarwch barhau am yn hirach ar Noswyl Nadolig neu ar benwythnosau cyn gwyliau'r banc.

A oes modd i mi o dan yr 'amseroedd nad ydynt yn safonol' ddweud fy mod am agor yn hwyr i ddangos Cwpan Rygbi'r Byd /Pêl-droed Awstralaidd/digwyddiadau chwaraeon tramor sy'n cael eu darlledu yn hwyr yn y nos/yn gynnar yn y bore yn y Deyrnas Unedig?
Gallwch gynnwys pa bynnag weithgareddau trwyddedadwy yr ydych yn dymuno, ond dylech feddwl am sut y gallai'r awdurdodau trwyddedu neu bartïon sydd â diddordeb edrych ar y rhain. Gallai fod o werth siarad â'ch awdurdod trwyddedu a'r awdurdodau cyfrifol perthnasol yn gyntaf i weld pa amodau, os o gwbl, y gallwch eu cynnig i liniaru unrhyw bryderon.

Ac eithrio ym mlwch C (chwaraeon dan do) gofynnir i chi ddangos a yw gweithgarwch yn digwydd dan do, yn yr awyr agored neu'r ddau. Gall dan do gynnwys pabell.

Yn y gofod sy'n dweud 'Rhowch fanylion pellach yma', nodwch y math o weithgarwch i'w awdurdodi, os nad ydych wedi ei nodi eisoes, a rhowch unrhyw fanylion pellach perthnasol, er enghraifft (ond nid yn gyfan gwbl) a fydd cerddoriaeth wedi ei chwyddo ai peidio.

BLYCHAU A – K (Darparu adloniant wedi ei reoleiddio)
Dylech gyfeirio at adran 1 Atodlen 1 y Ddeddf neu gysylltu â'ch awdurdod trwyddedu lleol am fanylion llawn y diffiniad o adloniant wedi ei reoleiddio.

BLWCH A: Dramâu
Perfformiad o unrhyw ddarn dramatig, (gan gynnwys ymarfer), os yw'n cynnwys addasiad ar y pryd ai peidio, sydd i gyd neu yn rhannol gydag un neu fwy o bobl yn bresennol ac yn perfformio lle bydd y prif gyfran o'r hyn a wneir gan y person(au) yn perfformio, boed hynny trwy siarad, canu neu weithredu, yn chwarae rôl.

BLWCH B: Ffilmiau
Unrhyw arddangosfa o luniau symudol ac eithrio lle mai ei unig neu brif bwrpas yw arddangos cynnyrch, hysbysebu nwyddau neu ddarparu gwybodaeth, addysg neu gyfarwyddyd, os yw'n cynnwys neu'n ffurfio rhan o arddangosiad sy'n cael ei ddangos at unrhyw ddibenion amgueddfa neu oriel. Nid yw defnyddio teledu neu radio yn drwyddedadwy, ac eithrio i ddangos rhaglenni a recordiwyd yn flaenorol.

BLWCH C: Digwyddiad chwaraeon dan do
Diffinnir digwyddiad chwaraeon yn y Ddeddf fel unrhyw gystadleuaeth, arddangosiad neu arddangosfa lle mai sgiliau corfforol yw'r prif ffactor, ac unrhyw ffurf ar adloniant corfforol sydd hefyd yn cael ei wneud er diben cystadleuaeth neu arddangosfa a gynhelir yn gyfan gwbl tu mewn i adeilad, a lle mae'r gynulleidfa hefyd i mewn yn yr adeilad hwnnw. Mae hyn yn cynnwys unrhyw adeilad sydd â tho ac yn cynnwys unrhyw gerbydau, llongau ac adeiladau symudol.

Mae lleoliad sydd â tho sy'n agor a chau yn cael ei ystyried fel digwyddiad dan do dan y Ddeddf ac nid yw gweithgareddau chwaraeon mewn lleoliadau o'r fath yn drwyddedadwy dan Ddeddf 2003. Ond, noder bod gweithgareddau eraill mewn lleoliadau o'r fath (megis gwerthu alcohol neu gerddoriaeth fyw) yn drwyddedadwy.

BLWCH D: Adloniant bocsio a wreslo
Yn wahanol i chwaraeon eraill, mae bocsio a wreslo yn drwyddedadwy os yw'n cael ei gynnal dan do neu yn yr awyr agored.

BLWCH E: Cerddoriaeth fyw
Mae cerddoriaeth yn cynnwys cerddoriaeth leisiol neu offerynnol neu unrhyw gyfuniad o'r ddau. Ni fydd yr hen reol '2 yn y bar' yn gymwys o dan y drefn trwyddedu newydd. Nid yw perfformio cerddoriaeth fyw, os yw'n achlysurol i ryw weithgaredd arall nad yw ynddo'i hun yn adloniant, yn drwyddedadwy.

BLWCH F: Cerddoriaeth wedi ei recordio
Nid oes rhaid i'ch tystysgrif ddelio â chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio os yw'n achlysurol i ryw weithgaredd arall nad yw ynddo'i hun yn adloniant gan fod hyn yn ei eithrio. Er enghraifft, ystyrir cerddoriaeth gefndir mewn archfarchnad yn achlysurol. Os oes gennych jiwc bocs neu droellwr ar eich mangre mae angen i chi ystyried a yw hyn, yn eich achos chi, yn gerddoriaeth achlysurol neu a ydyw'n weithgarwch trwyddedadwy. Os mewn amheuaeth, trafodwch gyda'r awdurdod trwyddedu.

BLWCH G: Perfformio dawns
Nid yw dawnsio Morris neu unrhyw ddawnsio o natur gyffelyb yn drwyddedadwy, na pherfformio cerddoriaeth fyw heb ei chwyddo fel rhan graidd o ddawnsio o'r fath.

BLWCH H: Adloniant sydd â disgrifiad tebyg i gerddoriaeth fyw (e), cerddoriaeth wedi ei recordio (f) neu berfformio dawns (g)

<u>BLYCHAU I – K (darparu cyfleusterau adloniant)</u>

Mae hyn yn cyfeirio at gyfleusterau a ddarperir ar gyfer caniatáu pobl i gymryd rhan mewn creu cerddoriaeth, dawnsio a gweithgareddau tebyg. Lle mae pwyllgor neuadd gyhoeddus yn llogi'r neuadd fel lleoliad dawnsio ("cyfleuster adloniant") i westywr a threfnydd priodas breifat, efallai na fydd y digwyddiad yn drwyddedadwy oni bai fod pwyllgor y neuadd gyhoeddus hefyd yn rheoli neu'n trefnu'r ddarpariaeth o adloniant i'r rhai sy'n mynychu (gweler atodlen 1, paragraffau 1(2) a (4) Deddf Trwyddedu 2003).

BLWCH I: Darparu cyfleusterau ar gyfer creu cerddoriaeth

BLWCH J: Darparu cyfleusterau ar gyfer dawnsio

BLWCH K: Darparu cyfleusterau ar gyfer adloniant o ddisgrifiad tebyg i hynny yn (i) darparu cyfleusterau ar gyfer dawnsio (j) perfformio dawnsfeydd

BLWCH L (darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos)
Dylech gyfeirio at adran 1 Atodlen 2 y Ddeddf neu gysylltu â'ch awdurdod trwyddedu lleol i gael manylion llawn am ddiffiniadau o luniaeth yn hwyr y nos.

Mae hyn yn delio â chyflenwi diod neu fwyd poeth rhwng 11:00pm a 5:00am, er mae yna sawl eithriad. Dylai diod boeth sy'n cynnwys alcohol gael ei awdurdodi dan cyflenwi alcohol, yn hytrach nag o dan luniaeth yn hwyr yn y nos.

Nid yw diod boeth o beiriant gwerthu lle mae'r cwsmer yn talu trwy roi arian yn y peiriant a lle mae'r ddiod yn dod yn uniongyrchol o'r peiriant yn drwyddedadwy, ond byddai'n drwyddedadwy pe byddai aelod o staff yn cymryd yn arian ac yn gweini'r ddiod.

Nid yw bwyd poeth neu ddiod boeth yn rhad ac am ddim yn drwyddedadwy, na'r bwyd a'r ddiod a gyflenwir gan elusen gofrestredig neu gan unigolyn wedi ei awdurdodi gan elusen gofrestredig.

Mae bwyd poeth neu ddiod boeth wedi ei gyflenwi mewn cerbyd, ac sydd heb barcio yn barhaol na dros dro ar yr adeg, hefyd yn cael ei eithrio.

Hefyd mae yna eithriadau i westeion sy'n aros mewn gwestai, gweithwyr penodol neu fasnachwyr neu bobl broffesiynol arbennig. Mae cyflenwadau o fwyd poeth neu ddiod boeth ar neu oddi ar fangre sydd eisoes wedi ei drwyddedu o dan ddeddfau penodol eraill - er enghraifft y rheiny a ddefnyddiwyd fel mangre "near beer" yn Llundain. Os mewn amheuaeth, dylech gysylltu â'ch awdurdod trwyddedu.

BLWCH M: (adwerthu alcohol)

Os ydych yn dymuno i bobl allu prynu alcohol i'w yfed o fewn y fangre, ticiwch 'mewn'. Os ydych yn dymuno i bobl allu prynu alcohol i'w yfed oddi ar y fangre, ticiwch 'allan'. Os ydych yn dymuno i bobl allu wneud y ddau, ticiwch 'y ddau'.

Goruchwyliwr Dynodedig Mangre

Os ydych yn bwriadu gwerthu alcohol, dylech nodi manylion y person yr ydych yn dymuno iddo/iddi fod yn oruchwyliwr dynodedig ar y fangre (DPS) o dan y drwydded newydd. Bydd angen i'r DPS ddal trwydded personol ddilys. Ar gyfer llawer o fangreoedd, dyma'r person sydd eisoes yn cael ei enwi ar y drwydded, ond gallwch ddewis enwi rhywun arall. Dim ond un DPS sydd yna ar gyfer pob mangre (ond unrhyw nifer o ddeiliaid trwyddedau personol) ac fel arfer, er nad o reidrwydd, ef/hi yw'r person sydd â chyfrifoldeb dyddiol am y mangre. Bydd angen i chi gyflwyno 'ffurflen ganiatâd DPS' wedi ei llofnodi gan y person yr ydych yn dymuno iddo/iddi fod yn eich DPS (mae angen i chi wneud hyn hyd yn oed os mai dyma'r un unigolyn sy'n gwneud cais am drwydded mangre) yn

cadarnhau ei f/bod yn fodlon cymryd y rôl hon. Mae'r ffurflen wedi ei rhagnodi, ac mae ar gael trwy wneud cais i'ch awdurdod trwyddedu neu fe allwch ei hargraffu neu ei lawrlwytho o wefan DCMS. Dylid cynnwys y ffurflen hon gyda'ch cais (gweler y rhestr wirio)

Gweler y canllawiau ar Drwyddedau Mangre am fwy o wybodaeth am Oruchwylwyr Dynodedig Mangre:
www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/licensing_act_2003/premises_licences

Am fwy o wybodaeth am Drwyddedau Personol:
www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/licensing_act_2003/personal_licences

BLWCH N

Mae hyn yn gofyn i chi i roi gwybodaeth am unrhyw beth a allai ddigwydd ar y fangre neu yn ategol i ddefnyddio'r fangre a allai godi pryderon mewn perthynas â phlant, er enghraifft (ond nid yn gyfan gwbl) noethni neu noethni rhannol, ffilmiau ar gyfer oedran cyfyngedig neu hapchwarae. Nid oes angen i chi roi manylion yma am beiriannau AWP. Nid oes rhaid i chi gwblhau'r adran hon os nad yw'n berthnasol i'ch mangre chi, ond yn hytrach na'i adael yn wag, efallai byddai'n well i chi ysgrifennu 'dim' neu 'N/A' i fod yn glir eich bod wedi ystyried hyn, yn hytrach nag wedi anghofio i gwblhau'r blwch.

BLWCH O: Yr oriau y mae'r fangre yn agored i'r cyhoedd.

Tra gallai hyn gynnwys adegau pan na chynhelir unrhyw weithgareddau trwyddedadwy, mae'n bwysig i awdurdodau cyfrifol, partïon â diddordeb a'r awdurdod trwyddedu wybod am ba mor hir y mae eich mangre yn agored yn ychwanegol i'r amseroedd lle bydd y gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cynnal. Er enghraifft, efallai y bydd hi'n angenrheidiol ac yn gyfatebol i sicrhau bod gweithgareddau trwyddedadwy yn gorffen mewn da bryd cyn y mae'r fangre yn cau i'r cyhoedd er mwyn caniatáu ymadawiad trefnus. Serch hynny, ni ellir defnyddio'r adran hon i newid yr oriau yfed na gorffen diod.

Dylech nodi yn y gofod a darperir, a fyddai unrhyw rai o'r 'amrywiadau tymhorol' ac 'amseroedd nad ydynt yn safonol' ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy, yn effeithio ar yr oriau y mae'r fangre'n agored i'r cyhoedd. Efallai y byddwch hefyd am ystyried a fydd yno amrywiadau tymhorol neu amseroedd nad ydynt yn safonol lle bydd y fangre yn agored i'r cyhoedd ar adegau gwahanol am weithgareddau lle nad oes angen trwydded ar eu cyfer - er enghraifft - agor yn gynnar i ddarparu brecwast yn ystod gwyliau'r haf. .

BLWCH P – Camau i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Gofynnir i chi ddisgrifio'r camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu:

- atal trosedd ac anhrefn
- diogelwch y cyhoedd
- atal niwsans cyhoeddus
- amddiffyn plant rhag niwed

Peidiwch ag anghofio y dylech eisoes fod yn glynu wrth ddeddfwriaeth berthnasol ym mhob maes arall. Dylech ddechrau trwy gydymffurfio â'r gofynion hyn. Os ydych yn credu nad oes yna ddim byd mwy i'w ychwanegu yna efallai y byddwch yn dymuno ysgrifennu 'N/A' neu rywbeth fel 'dim byd tu hwnt i ofynion Iechyd a Diogelwch/Diogelwch Tân ayb'. Mae hyn yn dangos eich bod wedi ystyried yr amcanion ac wedi dod i benderfyniad nad oes gennych chi unrhyw beth ychwanegol i'w wneud ac nad wedi anghofio ysgrifennu rhywbeth yn yr adran hon ydych chi wedi ei wneud. Wrth gwrs, os yw awdurdod cyfrifol am un o'r amcanion trwyddedu yn ystyried bod angen i chi wneud mwy na'r trefniadau presennol, bydd modd iddynt wneud cyflwyniadau. Os oes gennych bryderon, efallai y byddwch yn ei chael hi'n ddefnyddiol i siarad â'r awdurdod perthnasol cyn cwblhau'r ffurflen. Mae gwybodaeth bellach am awdurdodau cyfrifol ar gael oddi ar wefan DCMS (www.culture.gov.uk) neu oddi wrth swyddog trwyddedu neu wefan eich awdurdod lleol.

Os ydych yn bwriadu cymryd mesurau ychwanegol, yna dylech ystyried yn ofalus beth i'w gynnwys. Mae unrhyw beth a nodir yn y fan yma yn debygol o ddod yn amod ar eich trwydded. Byddai methiant i gwrdd â'r amodau hynny yn golygu eich bod yn cyflawni trosedd o dan y Ddeddf. Felly, dylech feddwl yn ofalus am ychwanegu amodau i sicrhau eu bod yn gyraeddadwy, yn realistig, yn angenrheidiol, yn gyfatebol ac o fewn eich rheolaeth. Seiliwch eich ymateb ar synnwyr cyffredin ac ystyriaeth briodol o'r risg a beth y gallwch chi, yn realistig, ei wneud i'w lleihau.

Mae enghreifftiau o amodau posibl mewn perthynas â'r pedwar amcan trwyddedu yn gynwysedig yn y Canllawiau a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i awdurdodau trwyddedu ac ar gael ar wefan DCMS [www.culture.gov.uk]. Mae'r rhain yn cael eu rhoi fel casgliad o amodau posibl y gallai fod yn ddefnyddiol i bobl eu hystyried. Nid ydynt yn amodau model ac nid ar unrhyw gyfrif y dylech edrych arnynt fel amodau safonol a ddylai fod yn berthnasol i bawb.

Yn y 'Blwch Cyffredinol', rhestrwch y camau ychwanegol y byddwch yn eu cymryd i hyrwyddo pob un o'r pedwar amcan trwyddedu, er enghraifft, cyflogi staff ychwanegol.

Rhestr Wirio a datganiad

Trwy dicio'r rhestr hon rydych yn datgan eich bod wedi gwneud y gweithredoedd a restrir. Os ydych yn ticio'r blychau hyn a ddim yn gwneud y gweithredoedd,

efallai eich bod yn gwneud datganiad ffug mewn perthynas â'r cais, sydd yn drosedd, a phe baech yn cael eich collfarnu, fe allech fod yn agored i ddirwy o hyd at £5,000.

Dylech wirio eich bod wedi cynnwys yr holl ddogfennaeth ofynnol. Mae hyn yn cynnwys cynllun o'r fangre a lle mae angen, ffurflen ganiatâd DPS.

Cynlluniau

Dylid cynnwys y cynllun o'r fangre fel rhan o'r cais, ac anfon copi at yr awdurdodau cyfrifol fel rhan o'r cais. Dylai cynllun y fangre gydymffurfio â gofynion y Ddeddf a Deddf Trwyddedu 2003 (Trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb) Rheoliadau 2005 SI 2005/40 i ddangos y canlynol:

(a) graddau ffin yr adeilad, os yw'n berthnasol, ac unrhyw waliau allanol a mewnol yr adeilad ac, os yw'n wahanol, amfesur y fangre;
(b) lleoliad y mannau mynediad i ac o'r fangre;
(c) os yn wahanol i baragraff (b), lleoliad y llwybrau dianc o'r fangre;
(d) mewn achos lle defnyddir y fangre ar gyfer mwy nag un gweithgaredd trwyddedadwy, y lleoliad ar y fangre a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob gweithgaredd;
(e) strwythurau gosodedig (gan gynnwys dodrefn) neu wrthrychau tebyg sydd wedi eu gosod mewn lleoliad dros dro (nid dodrefn) a allai effeithio ar allu unigolion ar y fangre i ddefnyddio'r allanfeydd neu'r llwybrau dianc heb rwystr;
(f) lle mae'r fangre'n cynnwys llwyfan neu ardal wedi ei godi, lleoliad ac uchder y llwyfan neu'r ardal mewn perthynas â'r llawr;
(g) lle mae'r fangre'n cynnwys unrhyw risiau, stepiau, codwyr neu lifftiau a lleoliad y grisiau, stepiau, codwyr neu lifftiau;
(h) lle mae'r fangre'n cynnwys unrhyw ystafell neu ystafelloedd sydd â chyfleusterau cyhoeddus a lleoliad yr ystafell neu ystafelloedd hynny;
(i) lleoliad a math unrhyw ddiogelwch tân ac unrhyw gyfarpar diogelwch arall; a
(j) lleoliad y gegin, os oes yna un, ar y fangre.

Oni bai eich bod eisoes wedi cytuno'n ysgrifenedig gyda'r awdurdod trwyddedu perthnasol bod cynllun ar raddfa wahanol yn dderbyniol, dylid llunio'r cynllun ar raddfa safonol, lle mae un milimedr yn cynrychioli 100 milimedr. Gall y cynllun gynnwys allwedd o symbolau i ddangos ar y cynllun uchod, ond nid oes rhaid gwneud hynny.

Oes rhaid i mi gael cynlluniau newydd wedi eu llunio'n broffesiynol?
Nid oes rhaid cael cynlluniau wedi eu llunio'n broffesiynol. Yr hyn sy'n bwysig yw eu bod yn gywir ac yn ateb y gofynion y cyfeirir atynt uchod.

A oes angen i ni ddangos ardal yfed, er enghraifft gardd gwrw, ar y cynllun os nad yw'n rhan o'r dystysgrif yr ydym yn ei throsi?
Nid oes rhaid i chi ddangos unrhyw ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r fangre y mae'r gweithgareddau trwyddedadwy presennol yn ymwneud â nhw ar eich cynllun i gyfnewid. Serch hynny, dylech ddisgrifio unrhyw ardaloedd yr ydych yn dymuno eu darparu i bobl yfed yr alcohol yr ydych yn ei werthu/cyflenwi o dan y disgrifiad cyffredinol o'r fangre y mae gofyn i chi ei roi ar ddechrau Rhan 3 y ffurflen gais.

Awdurdodau cyfrifol

Mae'n ofynnol i chi roi copi o'r cais, yn cynnwys dogfennau cysylltiedig i'r "awdurdodau cyfrifol" ar yr un diwrnod y cyflwynir y cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol. Awdurdodau cyfrifol yw'r cyrff cyhoeddus sydd â'r hawl i wneud cyflwyniadau i'r awdurdod trwyddedu mewn perthynas â chais am drwydded. Mae'n rhaid i bob cyflwyniad ymwneud ag effaith debygol caniatáu'r cais ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Mae'r awdurdodau cyfrifol yn cynnwys y canlynol, ar gyfer yr ardal lle lleolir y fangre:

- Prif swyddog yr heddlu
- Yr awdurdod tân ac achub
- Yr awdurdod iechyd a diogelwch
- Yr awdurdod cynllunio lleol
- Yr awdurdod iechyd yr amgylchedd
- Y corff cydnabyddedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant rhag niwed
- Arolygydd Pwysau a Mesurau (swyddogion safonau masnach)

Gyda golwg ar longau, mae'r rhestr hefyd yn cynnwys yr awdurdod mordwyo perthnasol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae mwy o wybodaeth am awdurdodau cyfrifol ar gael ar wefan DCMS: www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/premises_licences

Cysylltwch â'ch tîm trwyddedu lleol i gael manylion am yr awdurdodau cyfrifol yn eich ardal chi. Mae'n bosib bod manylion ar gael hefyd ar wefan eich awdurdod lleol.

Hysbysebu eich cais

Mae'n rhaid hysbysebu ceisiadau yn unol â'r hyn a nodir yn y Ddeddf a Deddf Trwyddedu 2003 (Trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb) Rheoliadau 2005. Mae hyn yn cynnwys arddangos arwydd ar y fangre neu'r tu allan i'r fangre a hysbyseb mewn papur newydd lleol. Am gyngor pellach, cysylltwch â swyddog trwyddedu eich awdurdod lleol neu edrychwch ar y canllawiau a roddir ar wefan y DCMS**:** [www.culture.gov.uk]

PEIDIWCH AG ANGHOFIO AMGÁU'R FFI BRIODOL

Gellir dod o hyd i fanylion am ffioedd ar wefan y DCMS:
www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/fee_levels

Rhan 3 – Llofnodi

Mae'n rhaid llofnodi'r ffurflen gais. Gall asiant ymgeisydd (er enghraifft, cyfreithiwr) lofnodi'r ffurflen ar ei ran ar yr amod bod ganddo awdurdod gwirioneddol i wneud hynny. Lle mae mwy nag un ymgeisydd, dylai'r ddau ymgeisydd, neu eu hasiantiaid perthnasol, lofnodi'r ffurflen gais.